# GYPSIES AND TRAVELLERS
# SIPSIWN A THEITHWYR

## PREJUDICE AND MISUNDERSTANDING

### ‘Unwelcome visitors’

Throughout history, Roma people have faced distrust and a lack of welcome from the settled communities that surround them. On several occasions this has led to large-scale persecution. The best-known example of this is Hitler’s Nazi regime, which is believed to have killed 400,000 Roma. Despite the memory of this atrocity, a spokesman for England’s National Holocaust Centre said in 2005 that “if we don’t learn from the past, we run the risk of repeating its mistakes in the future”. The Roma people remain persecuted or demonised in much of Europe, and stereotypical views – such as Gypsies being habitual thieves – persist.

### Gypsies and the law

A major challenge faced by Gypsies and Travellers is the legal position of their temporary settlements. Many Roma live in caravans and, while local councils in the UK must consider their needs, they do not have to provide Gypsy sites. This leads to some Gypsies being forced to camp illegally. Certain newspapers, however, portray Gypsies as law-breakers taking advantage of human rights legislation: a recent report by *The Sun*, depicting a “Gypsy Free-For-All”, was described by the Gypsy and Traveller Law Reform Coalition as very misleading and likely to incite racial hatred.

Some politicians also draw attention to the issue. For example, Michael Howard, leader of the UK Conservative party, used the following in the 2005 general election campaign: *“If you want to build a new home you have to get planning permission first. But if you are a Traveller you can bend the planning law – building where you like thanks to the Human Rights Act.”*

It is true that a minority of Travellers (but not necessarily Gypsies) cause local consternation after buying green-belt land or rapidly setting up campsites without permission. But such comments fuel a continuing lack of understanding of Gypsies by settled populations. And this distrust can be mutual, as Gypsies often feel that settled populations do not take their views or traditions into account.

## RHAGFARN A CHAMDDEALLTWRIAETH

### ‘Ymwelwyr digroeso’

Ers cychwyn hanes, mae pobl y Roma wedi wynebu diffyg ymddiriedaeth a diffyg croeso gan y cymunedau sefydlog o’u cwmpas. Ar sawl achlysur arweiniodd hyn at erledigaeth ar raddfa fawr. Yr enghraifft enwocaf o hyn yw cyfundrefn Nazïaidd Hitler, y credir iddo ladd 400,000 o’r Roma. Er gwaethaf y cof am yr erchyllter hwn, dywedodd llefarydd ar ran Canolfan Genedlaethol Holocost Lloegr yn 2005 “os na fyddwn ni’n dysgu o’r gorffennol, rydyn ni mewn perygl o ailadrodd ei gamgymeriadau yn y dyfodol”. Mae pobl y Roma’n dal i gael eu herlid neu eu demoneiddio mewn sawl ardal yn Ewrop, ac mae syniadau ystrydebol yn parhau, megis y farn bod Sipsiwn yn lladron cyson.

### Sipsiwn a’r gyfraith

Un her fawr sy’n wynebu Sipsiwn a Theithwyr yw sefyllfa gyfreithiol eu haneddiadau dros dro. Mae nifer o’r Roma’n byw mewn carafannau, ac er bod rhaid i gynghorau lleol yn y DU ystyried eu hanghenion, nid oes raid iddynt ddarparu safleoedd Sipsiwn. Mae hyn yn arwain at rai Sipsiwn yn gorfod gwersylla’n anghyfreithlon. Mae rhai papurau newydd, fodd bynnag, yn portreadu Sipsiwn fel pobl sy’n torri’r gyfraith gan gymryd mantais o ddeddfwriaeth hawliau dynol: cafodd adroddiad diweddar gan *The Sun*, yn darlunio “a Gypsy Free-For-All”, ei ddisgrifio gan y Glymblaid Diwygio Cyfraith Sipsiwn a Theithwyr fel erthygl gamarweiniol iawn oedd yn debygol o annog casineb hiliol.

Mae rhai gwleidyddion hefyd yn tynnu sylw at y mater. Er enghraifft, defnyddiodd Michael Howard, arweinydd plaid Geidwadol y DU, y canlynol yn ymgyrch etholiad cyffredinol 2005: *“Os ydych chi eisiau adeiladu cartref newydd rhaid i chi gael caniatâd cynllunio gyntaf. Ond os ydych chi’n Deithiwr gallwch chi wyro’r ddeddf gynllunio – gan adeiladu lle y mynnwch chi diolch i’r Ddeddf Hawliau Dynol.”*

Mae’n wir bod lleiafrif o Deithwyr (ond nid Sipsiwn o anghenraid) yn achosi pryder lleol ar ôl prynu tir llain las neu sefydlu meysydd gwersylla’n gyflym heb ganiatâd. Ond mae sylwadau o’r fath yn bwydo diffyg dealltwriaeth parhaus o’r Sipsiwn ymysg poblogaethau sefydlog. A gall y diffyg ymddiriedaeth hwn ddod o’r ddwy ochr, gan fod Sipsiwn yn aml yn teimlo nad yw poblogaethau sefydlog yn cymryd sylw o’u barn na’u traddodiadau.

## GYPSY WELFARE

### Language

Many Roma people speak a distinct language, **Romany**, which is closely related to the languages of northern India and Pakistan. As with many minority languages, this can add to the isolation of the population and to the negative feelings of settled communities. Some Roma have developed creole or mixed languages: an example is **Caló**, which uses Romany vocabulary and Spanish grammar.



### Education

This is a key problem area. In the UK, Roma often do not access the services they need, because of their distrust of outsiders, and especially of professionals. There is a poor level of literacy amongst the Roma population, largely because of the transient nature of their schooling. Furthermore, the early age at which children are considered mature means that they rarely complete their education. By Year 9, only 20% of Gypsy and Traveller children attend school. Local councils can make grants for specialised education programmes, but few do so at present.

### Health

Health provision is another big concern, with Gypsies and Travellers having a relatively low life expectancy and a high infant death rate. Reasons for this include poor sanitation, poverty and poor access to health information, as well as a reluctance to seek help. Gypsies are also at greater risk of genetically inherited conditions, because of their small populations. In addition, there is a high number of road accidents involving Gypsy and Traveller children.

### Housing and employment

Not all Gypsies live in caravans: in fact, up to 50% of them live in static accommodation. In either case, Roma (particularly in eastern Europe) often have poor access to electricity and water supplies. A high unemployment rate exacerbates Gypsy poverty: its causes include discrimination, lack of educational qualifications, and the perceived problems that might be caused by some Gypsies’ nomadic lifestyle.

## LLES SIPSIWN

### Iaith

Mae llawer o bobl y **Romani** siarad iaith unigryw, Romani, sy’n perthyn yn agos i ieithoedd gogledd India a Phacistan. Fel gyda llawer o ieithoedd lleiafrifol, gall hyn ychwanegu at arwahanrwydd y boblogaeth ac at deimladau negyddol y cymunedau sefydlog. Mae rhai o’r Roma wedi datblygu ieithoedd creol neu gymysg: un enghraifft yw **Caló**, sy’n defnyddio geirfa Romani a gramadeg Sbaeneg.

### Addysg

Mae hwn yn faes sy’n broblem allweddol. Yn y DU, yn aml nid yw’r Roma’n cyrchu’r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, oherwydd nad ydynt yn ymddiried mewn dieithriaid, ac yn enwedig mewn pobl broffesiynol. Mae lefel llythrennedd y boblogaeth Roma’n isel, yn bennaf oherwydd natur dros dro eu haddysg. Ar ben hyn, mae’r oedran ifanc yr ystyrir bod plant yn aeddfed yn golygu mai anaml y byddant yn cwblhau eu haddysg. Erbyn Blwyddyn 9, dim ond 20% o blant Sipsiwn a Theithwyr sy’n mynychu’r ysgol. Gall cynghorau lleol dalu grantiau ar gyfer rhaglenni addysg arbenigol, ond prin yw’r rhai sy’n gwneud hynny ar hyn o bryd.

### Iechyd

Mae’r ddarpariaeth iechyd yn bryder mawr arall, gyda disgwyliad oes Sipsiwn a Theithwyr yn gymharol isel a chyfradd marwolaethau uchel ymhlith babanod. Ymysg y rhesymau dros hyn mae iechydaeth wael, tlodi a mynediad gwael at wybodaeth am iechyd, yn ogystal ag amharodrwydd i geisio cymorth. Mae Sipsiwn hefyd mewn mwy o berygl o ddatblygu cyflyrau sy’n cael eu trosglwyddo’n enetig, oherwydd eu poblogaethau bach. Ar ben hyn, mae nifer fawr o ddamweiniau ffordd yn digwydd i blant Sipsiwn a Theithwyr.

### Tai a chyflogaeth

Nid yw pob Sipsi’n byw mewn carafán: mewn gwirionedd, mae hyd at 50% ohonynt yn byw mewn llety statig. Yn y ddau achos, yn aml bydd gan y Roma (yn enwedig yn nwyrain Ewrop) fynediad gwael at gyflenwadau trydan a dŵr. Mae cyfradd uchel o ddiweithdra’n gwaethygu tlodi’r Sipsiwn: mae’r rhesymau drosto’n cynnwys camwahaniaethu, diffyg cymwysterau addysgol a’r problemau canfyddedig allai gael eu hachosi gan ffordd o fyw nomadig rhai Sipsiwn.

## WHO ARE GYPSIES?

The **Roma** people, commonly known as **Gypsies**, form Europe’s largest minority ethnic group. Not all Travellers are Gypsies: in order to be a Gypsy you must be born into a Gypsy family. Consequently, Gypsies in the UK (and Irish Travellers to a lesser extent) are protected under the **Race Relations Act**.




Gypsies originated in northern India, but left the region (probably in the 11th century), passing through the Middle East and eastern Europe. The reason for their migration is unknown, although some historians believe they were enlisted as soldiers or taken as slaves. Whatever the case, the Roma did not return to India, but continued to travel west.

Six to eight million Roma now live in Europe. This population is centred in the Balkan states, central Europe, Russia and the former republics of the Soviet Union. There are no precise figures for the number of Gypsies currently in the UK, but the figure is thought to be between 80,000 and 200,000. Some also live in the USA, the Middle East and North Africa. The Roma people are one of the largest ethnic groups in the world without a homeland.

## PWY YW’R SIPSIWN?

Mae pobl y **Roma**, neu’r **Sipsiwn** fel y’i gelwir yn gyffredin, yn ffurfio grŵp lleiafrif ethnig mwyaf Ewrop. Nid yw pob Teithiwr yn Sipsi: er mwyn bod yn Sipsi rhaid i chi gael eich geni i deulu o Sipsiwn. O ganlyniad i hyn, mae Sipsiwn yn y DU (a Theithwyr Gwyddelig i raddau llai) yn cael eu gwarchod dan y **Ddeddf Cysylltiadau Hiliol**.

Daeth y Sipsiwn yn wreiddiol o ogledd India, ond gadawsant y rhanbarth (yn yr 11eg ganrif mae’n debyg) gan basio drwy’r Dwyrain Canol a dwyrain Ewrop. Ni wyddom y rheswm dros eu mudo, er bod rhai haneswyr yn credu iddynt gael eu hymrestru’n filwyr neu eu cymryd fel caethweision. Beth bynnag oedd y gwir, nid aeth y Roma’n ôl i’r India, ond yn hytrach parhau i deithio i’r gorllewin a wnaethant.

Mae rhwng chwech ac wyth miliwn o’r Roma’n byw yn Ewrop erbyn hyn. Mae’r boblogaeth wedi’i chanoli yn nhaleithiau’r Balcannau, canol Ewrop, Rwsia a chyn weriniaethau’r Undeb Sofietaidd. Nid oes ffigurau manwl i ddweud faint o Sipsiwn sy’n byw yn y DU ar hyn o bryd, ond credir bod y nifer rhwng 80,000 a 200,000. Mae rhai ohonynt hefyd yn byw yn UDA, y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica. Y Roma yw un o’r grwpiau ethnig mwyaf yn y byd heb famwlad.

## ROMA CULTURE

Family is the most important social grouping for Roma people. Men and women have clearly defined roles, with men generally being self-employed and women doing housework. Children are considered to be mature much earlier than in European societies, with some being encouraged to marry at 12 or 13. There has been criticism of the Roma practice, in some countries, of arranged marriages and female subjugation.



Instead of passing on wealth in the form of property, Roma people invest in crystal and gold jewellery. It is unusual for visitors to be invited into their living trailers, as these are considered private and strict rules of cleanliness apply to them. Instead, the giving of tea shows acceptance of a visitor. Gypsies do not allow their dogs inside their trailers and often do not touch them, as they are considered to be unclean.

When a Gypsy dies, the family mourns for up to a year and believes it is disrespectful to use the names of the dead. The trailer of the deceased is burnt and the funeral procession is driven past their favourite social haunts.

Roma people have had a strong influence on the evolution of Flamenco music and dancing. This tradition continues in Gypsy culture today, alongside the playing of jazz, rap, rock and other modern types of music.

## DIWYLLIANT Y ROMA

Y teulu yw’r grŵp cymdeithasol pwysicaf i bobl y Roma. Mae gan ddynion a menywod swyddogaethau sydd wedi’u diffinio’n eglur, gyda’r dynion gan fwyaf yn hunan gyflogedig a’r menywod yn gwneud y gwaith tŷ. Ystyrir bod y plant yn aeddfed yn llawer cynharach nag mewn cymdeithasau Ewropeaidd, gyda rhai’n cael eu hannog i briodi yn 12 neu’n 13 oed. Cafwyd beirniadaeth mewn rhai gwledydd o arfer y Roma i drefnu priodasau a darostyngiad menywod.

Yn hytrach na throsglwyddo cyfoeth ar ffurf eiddo, mae pobl y Roma’n buddsoddi mewn gemwaith aur a chrisial. Mae’n anarferol i ymwelwyr gael gwahoddiad i mewn i’w cerbydau byw, gan eu bod yn cael eu hystyried yn breifat ac mae rheolau glendid llym yn gysylltiedig â hwy. Yn hytrach, mae rhoi te’n arwyddo bod ymwelydd yn cael ei dderbyn. Nid yw Sipsiwn yn caniatáu eu cŵ n i fynd i mewn i’w cerbydau ac yn aml nid ydynt yn eu cyffwrdd gan eu bod yn cael eu hystyried yn aflan.

Pan fydd Sipsi’n marw, bydd y teulu’n galaru am hyd at flwyddyn a chredant ei bod yn amharchus i ddefnyddio enwau’r meirw. Caiff cerbyd yr ymadawedig ei losgi a bydd yr orymdaith angladdol yn gyrru heibio eu hoff fannau cymdeithasol.

Cafodd pobl y Roma ddylanwad cryf ar esblygiad cerddoriaeth a dawnsio Fflamenco. Mae’r traddodiad hwn yn parhau o fewn diwylliant y Sipsi hyd heddiw, ochr yn ochr â chwarae jas, rap, roc a mathau eraill o gerddoriaeth fodern.

**‘Gypsy’ is thought to be a derivative of ‘Egyptian’, which is what the settled population believed the Roma to be.**
**Mae’r gair ‘Sipsiwn’ yn debyg o fod yn deillio o ‘Egyptian/Eifftiwr’, yr hyn yr oedd y boblogaeth sefydledig yn credu oedd y Roma.**

**72% of Gypsy caravans in the UK are on authorised sites.**
**Mae 72% o garafannau Sipsiwn yn y DG ar safleoedd awdurdodedig.**

## ACTION IN EUROPE

Discrimination is particularly common in eastern Europe, where several million Roma people live. In Slovakia in 2004, welfare payments were cut for impoverished Roma, leading to thousands of police officers and soldiers being deployed to quell their protests. In Hungary, a school was recently fined for transporting Roma children on buses.

Seven central and eastern European countries – Bulgaria, Croatia, the Czech Republic, Hungary, Macedonia, Romania, and Serbia and Montenegro – have named 2005-2015 the **Decade of Roma Inclusion**. This initiative includes a commitment to close the gap in welfare and living conditions between Roma and non-Roma populations, and to end the cycle of poverty and exclusion that many Roma find themselves in.

DECADE OF ROMA INCLUSION 2005-2015

In 2005 Livia Jaroka was elected as the first Roma Member of the European Parliament (MEP), enabling her to champion Roma issues internationally.

## GWEITHREDU YN EWROP

Mae camwahaniaethu’n gyffredin iawn yn nwyrain Ewrop, lle mae miliynau lawer o bobl Roma’n byw. Yn Slofacia yn 2004, cafodd taliadau lles i’r Roma tlawd eu torri, gan arwain at ddefnyddio miloedd o swyddogion heddlu a milwyr i lonyddu eu protestiadau. Yn Hwngari, cafodd ysgol ei dirwyo’n ddiweddar am gludo plant Roma ar fysiau.

Mae saith gwlad yng nghanol a dwyrain Ewrop – Bwlgaria, Croatia, y Weriniaeth Tsiec, Hwngari, Macedonia, Romania a Serbia a Montenegro – wedi enwi 2005-2015 yn **Ddegawd Cynhwysiad Roma**. Mae’r fenter hon yn cynnwys ymrwymiad i gau’r bwlch mewn amodau byw a lles rhwng poblogaethau Roma a rhai nad ydynt yn Roma, ac i ddiweddu’r cylch tlodi a’r dieithrio y mae llawer o’r Roma’n cael eu hunain yn rhan ohono.

Yn 2005 cafodd Livia Jaroka ei hethol yn Aelod Roma cyntaf Senedd Ewrop (ASE/MEP), gan ei galluogi i bleidio materion Roma’n rhyngwladol.

## GYPSIES AND TRAVELLERS IN WALES

The last official count of Gypsies and Travellers in Wales took place in 1997. However, it is believed that there are up to 9,000 living in Wales at any one time. In Cardiff there are two permanent Gypsy sites that have 77 pitches, with a further 60 families housed around Cardiff and more caravans parked on roadsides. There are thought to be similar numbers of Gypsies and Travellers in other large urban areas. As in other parts of the UK, a lack of legal campsites leads to some Gypsies camping illegally.

The **National Assembly for Wales** is currently reviewing the treatment of Gypsies and Travellers under its Racial Equality Scheme. It is considering how they face discrimination (including from the police) and disadvantage, as well as addressing the issues of schooling and health for them. The Assembly is also seeking to develop education programmes for the settled community, explaining the Gypsy way of life.

## SIPSIWN A THEITHWYR YNG NGHYMRU

Cynhaliwyd y cyfrif swyddogol diwethaf o Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru ym 1997. Er hynny, credir bod hyd at 9,000 ohonynt yn byw yng Nghymru ar unrhyw un adeg. Yng Nghaerdydd mae dau safle parhaol i Sipsiwn gyda 77 llain, gyda 60 o deuluoedd eraill wedi’u cartrefu o gwmpas Caerdydd a rhagor o garafannau wedi’u parcio yma a thraw ar fin y ffordd. Credir bod niferoedd tebyg o Sipsiwn a Theithwyr mewn ardaloedd trefol mawr eraill. Fel mewn rhannau eraill o’r DU, mae prinder safleoedd campio parhaol yn arwain at rai Sipsiwn yn campio’n anghyfreithlon.

Mae **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** ar hyn o bryd yn adolygu’r driniaeth o Sipsiwn a Theithwyr dan ei Gynllun Cydraddoldeb Hiliol. Mae’n ystyried sut y maent yn wynebu camwahaniaethu (yn cynnwys gan yr heddlu) ac anfantais, yn ogystal â mynd i’r afael â materion addysgu a iechyd ar eu cyfer. Mae’r Cynulliad hefyd yn edrych ar ddatblygu rhaglenni addysg ar gyfer y gymuned sefydlog, yn esbonio ffordd o fyw’r Sipsiwn.

## OTHER TRAVELLERS

**Irish Travellers** are a separate cultural group and should not be referred to as Gypsies. They too are distinguished from settled communities by their own language (Shelta, partly based on Irish Gaelic) and customs. The historical origins of Irish Travellers are unclear, but some pressure groups believe that they should be recognised as a distinct ethnic group. Like Gypsies, the 15,000 Irish Travellers currently living in the UK often face prejudice and mistrust.



Other, smaller groups in the UK are Scots Travellers (Nachins), Welsh Gypsies (Kale), English Gypsies (Romanichals), Boat Dwellers (Bargees) and fairground and circus travellers.

The term **New Age Travellers**, rather than meaning a particular ethnic or cultural group, refers to a movement in Britain of travellers who espouse ‘New Age’ or ‘neo-pagan’ spiritual beliefs. ‘New Age’ travelling originated in free music festivals in the 1970s, and continues to be a feature of fairs and festivals.

## TEITHWYR ERAILL

Mae **Teithwyr Gwyddelig** yn grŵp diwylliannol ar wahân ac ni ddylid cyfeirio atynt fel Sipsiwn. Cânt hwythau eu gwahaniaethu oddi wrth gymunedau sefydlog gan eu hiaith eu hunain (Shelta, sy’n rhannol seiliedig ar Wyddeleg) a gan eu harferion. Nid yw’n glir beth yw gwreiddiau hanesyddol Teithwyr Gwyddelig, ond mae rhai carfannau pwyso’n credu y dylid eu cydnabod yn grŵp ethnig gwahanol. Yn debyg i’r Sipsiwn, mae’r 15,000 o Deithwyr Gwyddelig sy’n byw yn y DU’n aml yn wynebu rhagfarn a diffyg ymddiriedaeth.

Y grwpiau eraill llai yn y DU yw’r Teithwyr Albanaidd (Nachins), y Sipsiwn Cymreig (Kale), y Sipsiwn Seisnig (Romanichals), Trigolion y Cychod (Bargees) a theithwyr ffair a syrcas.

Mae’r term **Teithwyr yr Oes Newydd**, yn hytrach na chyfeirio at grŵp ethnig neu ddiwylliannol penodol, yn cyfeirio at fudiad o deithwyr ym Mhrydain sy’n arddel credoau ysbrydol ‘yr Oes Newydd’ neu ‘neo-baganaidd’. Cychwynnodd teithio’r ‘Oes Newydd’ mewn gwyliau cerddoriaeth rhad ac am ddim yn y 1970au, ac maent yn parhau i fod yn nodwedd o ffeiriau a gwyliau.

## USEFUL WEBSITES AND INFORMATION SOURCES / GWEFANNAU A FFYNONELLAU GWYBODAETH DEFNYDDIOL

| | |
|---|---|
| Cardiff Gypsy Traveller Project / Prosiect Teithwyr Sipsi Caerdydd | www.switch-cymru.org.uk/html/CGSG/page1.htm |
| Commission for Racial Equality Wales / Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru | www.cre.gov.uk/wales |
| European Roma Rights Centre / Y Ganolfan Hawliau Roma Ewropeaidd | www.errc.org |
| Gypsy and Traveller Law Reform Coalition / Clymblaid Diwygio Cyfraith Sipsiwn a Theithwyr | www.travellerslaw.org.uk |
| Gypsy Council / Cyngor y Sipsiwn | www.btinternet.com/~thegypsycouncil |
| Irish Traveller Movement / Mudiad Teithwyr Gwyddelig | www.itmtrav.com |
| National Assembly for Wales Equal Opportunities Committee | www.wales.gov.uk/keypubassemequalcomm |
| Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru | www.cymru.gov.uk/keypubassemequalcomm |
| National Assembly Racial Equality Scheme | www.wales.gov.uk/themesraceequality |
| Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad Cenedlaethol | www.cymru.gov.uk/themesraceequality |
| RomNews Society / Cymdeithas RomNews | www.romnews.com |
| Traveller Law Research Unit (Cardiff University) / Uned Ymchwil ar Gyfraith Teithwyr (Prifysgol Caerdydd) | www.law.cf.ac.uk/tlru |
| Wikipedia article on Roma people / Erthygl Wikipedia ar bobl y Roma | http://en.wikipedia.org/wiki/Roma_people |


www.cewc-cymru.org.uk

FFÔN/TEL 029 2022 8549 FFACS/FAX 029 2064 0333 E-BOST/E-MAIL cewc@wcia.org.uk CEWC-CYMRU Y DEML HEDDWCH/TEMPLE OF PEACE • PARC CATHAYS/CATHAYS PARK • CAERDYDD/CARDIFF • CF10 3AP